# Cynllun Datblygu Unigol (CDU): Templed

Mae'r ddogfen hon yn dangos y templed cyffredinol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i amlinelli ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) ac yn bwriadu helpu teuluoedd meddwl am y mathau o wybodaeth y gall pob adran gynnwys.

Ar draws gwahanol ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol, efallai bydd CDUau yn edrych ychydig yn wahanol o ran fformat, ond dylen nhw ddefnyddio'r penawdau isod fel canllaw. Efallai bydd rhai yn ddigidol, efallai bydd rhai yn edrych yn wahanol o ran ffontiau a steil.

Mae hefyd yn bwysig cofio bydd cynnwys CDU yn amrywio yn dibynnu ar unigolyn a'i anghenion unigryw. Bydd rhai CDU yn edrych yn fwy manwl nag eraill a ni fydd pob un o'r penawdau yn cael eu defnyddio os nad ydyn nhw'n berthnasol i'r dysgwr. Mae'r rhannau o'r CDU sy'n ffurfio'r agweddau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol i'w gweld yn Adran 2 ac wedi'u haroleuo.

Mae gwybodaeth gefndir ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynlluniau Dysgu Unigol (CDU) ar gael ar ein gwefan yn **www.ndcs.org.uk/ALN-Wales**.

Gallwch hefyd lawrlwytho ein **canllawiau i rieni ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) (Cymru)** am fwy o wybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), cymhwysedd ar gyfer CDUau a'r broses o gael un.

Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yw'r brif elusen sydd yn gweithio i greu byd heb rwystrau i blant a phobl ifanc byddar ledled y DU.

© Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Adolygwyd diwethaf: Medi 2021

Rhowch eich adborth i ni drwy anfon eich sylwadau mewn e-bost at **informationteam@ndcs.org.uk**

## Adran 1

| Adran 1A: Gwybodaeth ddaearyddol sylfaenol am y plentyn neu berson ifanc1 a manylion cyswllt | |
|---|---|
| **1A.1) Enw llawn:** | |
| **1A.2) Yn hoffi cael ei alw yn:** | |
| **1A.3) Dyddiad geni:** | |
| **1A.4) Rhyw a'r rhagenwau a ffafrir:** | *Ef/Yntau; Hi/Hithau; Nhw/Hwythau* |
| **1A.5) Lleoliad(au) addysg presennol:** | *Cyfeiriad – neu amh os nad ydyn nhw yn yr ysgol, neu gartref os ydyn nhw'n Derbyn ei Addysg y Tu Allan i'r Ysgol* |
| **1A.6) Cyfeiriad a rhif ffôn gartref:** | |
| **1A.7) Enw'r rhieni2:** | *Y plentyn* |
| **1A.8) Cyfeiriad e-bost (dim ond lle mae'r plentyn/rhiant/person ifanc yn fodlon derbyn hysbysiadau a dogfennau yn electronig):** | |
| **1A.9) Rhif(au) ffôn rhieni (os yn wahanol, a lle mae'r rhieni wedi rhoi eu caniatâd i gynnwys eu manylion yn unig)[2]:** | |
| **1A.10) Anghenion a dymuniadau cyfathrebu:** | *Y plentyn, person ifanc neu'r rhiant: Dyma lle rydych chi'n nodi eich dewis iaith cyfathrebu (Cymraeg neu Saesneg neu BSL neu arall) - os oes angen naill ai Dehonglydd, Gweithiwr cymorth cyfathrebu neu balanteipydd. Dull cyfathrebu: prociau cyfathrebu a chefnogaeth gan gynnwys arwyddion, prociau a chiwiau gweledol, darllen gwefusau, apiau lleferydd-i-destun, amser ychwanegol i brosesu, aralleirio neu egluro geirfa allweddol. Ffordd o ymgysylltu: un-i-un neu grwpiau bach; Cymhorthion radio, system mwyhau maes sain ystafell ddosbarth, ffrydwyr a dolenni clyw. Amgylchedd gwrando da i ffwrdd o sŵn cefndir a neuaddau ecoaidd, goleuo da, lleoliadau seddi ac ystyriaeth ynghylch ymwybyddiaeth o fyddardod.* |
| **1A.11) I berson ifanc, manylion caniatâd i'r CDU gael ei baratoi/gynnal:** | *Gall person ifanc byddar wrthod caniatâd i'r CDU.* |
| **1A.12) Problemau gallu:** | *Gallu'r plentyn i ddeall y dogfennau a, lle maen nhw ar oedran priodol i roi ei ganiatâd i gael CDU; lle nid oes gan naill ai'r rhiant neu'r person ifanc y gallu.* |

*1 Mae person ifanc yn rhywun dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 25 oed.*

*2 I bobl ifanc, dim ond i'w gwblhau gyda'u caniatâd ac os ydyn nhw'n cytuno i wybodaeth i gael ei rhannu gyda'u rhieni.*

## Adran 1B: Cyfrifoldeb dros y CDU

| | |
|---|---|
| **1B.1) Y mudiad sy'n gyfrifol am gynnal y CDU:** | *Yr ysgol, coleg neu awdurdod lleol a fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bydd y CDU yn cael ei ddiweddaru - nodwch fanylion cyswllt.* |
| **1B.2) Dyddiad terfyn ar gyfer adolygu'r CDU:** | *Y dyddiad olaf i bawb sy'n gysylltiedig â'r CDU ei adolygu - yn flynyddol o leiaf.* |
| **1B.3) Dyddiad arfaethedig yr adolygiad:** | *Dyddiad arfaethedig. Gallwch chi neu'r gweithwyr proffesiynol ofyn am adolygiad cynnar pe bai hynny o fudd. Mae CDUau yn adweithiol ac yn adlewyrchu anghenion plentyn a all newid yn gyflym. Er enghraifft:*<br>• *Newid sylweddol neu gyflym mewn colled clyw.*<br>• *Newid mewn adferiad, h.y. cymhorthion clyw i fewnblaniadau.*<br>• *Newid i leoliad ysgol, ayb.* |

## Adran 1C: Proffil (Amdanaf i)

*Mae adran hon y CDU yn grynodeb am y plentyn neu berson ifanc sy'n cynnig cyd-destun a gwybodaeth. Gall gael ei haddasu a'i phersonoli to gwrdd ag oedran ac anghenion y plentyn neu berson ifanc. Dylid bod yn glir, cryno a chywir.*

*Dylai'r proffil gynnwys gwybodaeth allweddol, fel disgrifio cymeriad y plentyn neu berson ifanc, ei ddoniau a'i dalentau, yr hyn sydd yn bwysig iddyn nhw, a'r ffordd orau i'w gefnogi. Gall hyn gynnwys: ei hoff bethau a'i gas bethau; manylion am chwarae, iechyd, annibyniaeth, cyfathrebu; y bobl y mae'r plentyn neu berson ifanc yn eu hystyried i fod yn bwysig iddyn nhw (teulu, ffrindiau neu staff cymorth personol, er enghraifft gofalwr neu gynorthwyydd personol); uchelgeisiau am, er enghraifft, eu haddysg a gyrfa, byw yn annibynnol a chymryd rhan yn y gymuned.*

*Yr adran hon yw eich cyfle chi i ddweud wrth weithwyr proffesiynol am yr holl wybodaeth allweddol y credwch chi dylen nhw ei gwybod am eich plentyn. Mae'n le ardderchog i nodi awgrymiadau cyfathrebu allweddol sy'n gwneud gwir wahaniaeth i'ch plentyn chi.*

*Mae'r Cod yn awgrymu bod y pwyntiau canlynol yn cael eu cynnwys ac yn ymdrin â barnau'r dysgwr:*

- *Yr hyn sy'n bwysig* ***i'r*** *dysgwr;*
- *Yr hyn sy'n bwysig* ***ar gyfer*** *y dysgwr;*
- *Yr hyn sy'n gweithio a dylid adeiladu arno;*
- *Yr hyn nad yw'n gweithio ac sydd angen ei newid.*

*Yn yr adran hon, mae'n bwysig bod barnau a dymuniadau'r plentyn, person ifanc neu riant wedi'u nodi'n glir iawn. Mae hefyd yn bwysig bod barnau'r plentyn neu berson ifanc yn cael eu nodi ar wahân i farnau a dymuniadau'r rhiant neu ofalwr.*

**NODER - NID YW'R ADRAN HON YN CDU AR EI PHEN EI HUN - Adran 2 y CDU, gan gynnwys manylion y DDY, yw'r rhan o ddogfen CDU a orfodir yn gyfreithiol.**

# Adran 2

**Adran 2** Gall teuluoedd apelio i'r tribiwnlys os ydyn nhw'n anhapus gyda rhannau o'r adran hon. Mae'r rhannau hyn wedi'u **thanlinellu, yn drwm ac yn binc.**

| **Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu berson ifanc** |
|---|
| *Dyma lle mae ADY y plentyn neu berson ifanc yn cael eu disgrifio mewn modd clir a chynhwysfawr. Bydd angen ar yr ysgol, coleg neu awdurdod lleol asesiad a gwybodaeth o adroddiadau gan bawb sy'n gysylltiedig er mwyn gallu cwblhau'r adran hon. Dylai'r adran hon gynnwys diagnosis o fyddardod gan weithwyr iechyd proffesiynol ac unrhyw dechnoleg glyw berthnasol. Hefyd nodwch unrhyw fylchau mewn gwybodaeth oherwydd gall hyn lywio darpariaeth yn y dyfodol.*<br><br>*Dylai'r adran hon hefyd gynnwys y rhesymeg dros benderfyniadau ar ADY plentyn ac os oedd yna wahanol farnau. Efallai bydd y disgrifiad o'r ADY yn newid dros amser, os oes yna newidiadau i lefel y byddardod, er enghraifft.*<br><br>*Gall fod yn ddefnyddiol i gynnwys penawdau fel: Byddardod ac effaith, Iaith a chyfathrebu, Cymdeithasol ac emosiynol, Gwybyddiaeth, Data cyrhaeddiad ysgol, ayb.* |

| **Adran 2B: Disgrifiad a chyflwyniad darpariaeth addysgu ychwanegol (DDY) y plentyn neu berson ifanc** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***2B.1) Canlyniad a fwriedir:***<br>*Dylai'r canlyniadau hyn fod yn CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy,. Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol). Efallai bydd yna dargedau tymor byr y gellir eu nodi mewn atodiad i'r CDU.* | | | | |
| **2B.2) DDY i gael ei darparu:** | **2B.3) A ddylai'r DDY gael ei darparu yn y Gymraeg? Os ie, mae'n rhaid i'r ysgol wneud pob ymdrech rhesymol i'w darparu** | **2B.4) Mudiad / gwasanaeth i ddarparu'r DDY, a manylion cyswllt (lle yn wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun):** | **2B.5) Dyddiad cychwyn** | **2B.6) Dyddiad terfyn neu adolygu** |
| *Dylai hyn gynnwys pa mor aml (dyddiol, wythnosol); y fath o gymorth; pwy sy'n cynnig y cymorth. Dylai'r disgrifiad o'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY) fod yn glir iawn ac yn fanwl gywir, gall y manylion uchod wedyn gael eu rhannu'n golau a thargedau llai.* | *Mae gan y corff sy'n darparu'r DDY ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDY yn y Gymraeg, os oes angen.* | *Er enghraifft, enw a manylion cyswllt Athro Plant Byddar (APB).* | *Gall hyn fod yn y dyfodol e.e. pontio o'r ysgol gynradd i ysgol uwchradd neu yn syth.* | *Byddwch yn glir a yw hyn yn ddyddiad terfyn neu ddyddiad adolygu.* |

| | |
|---|---|
| **2B.7) Sail resymegol dros y DDY a rhestrir uchod:**<br>*Os oes yna wahaniaeth barn dylid cael ei nodi yma e.e. gwahaniaeth barn rhwng y plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc a gweithwyr proffesiynol. Gall yr adran esbonio sut mae barnau gwahanol wedi cael eu hystyried cyn dod i benderfyniad penodol.* | |

| **Adran 2C: Disgrifiad a chyflwyniad y DDY i gael ei sicrhau gan gorff GIG** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2C.1) Canlyniad a fwriedir:**<br>*Dyma lle mae manylion unrhyw gymorth dysgu sy'n cael ei ddarparu gan gorff GIG yn cael eu cynnwys - gall hyn fod yn sesiynau gyda Therapydd Lleferydd ac Iaith.*<br>*Os na wneir atgyfeiriad at gorff GIG dylid nodi "nid oes angen atgyfeiriad"*<br>*Os mae atgyfeiriad yn cael ei wneud ond nid yw'r corff GIG wedi nodi triniaeth neu wasanaeth dylid cofnodi: "Atgyfeiriad wedi'i wneud. Ni nodwyd gwasanaeth neu driniaeth briodol."*<br>*Os oes yna wahaniaeth barn dylid nodi hyn hefyd. Os **na fydd** y corff GIG yn darparu DDY, ond yn gwneud awgrymiadau defnyddiol, cynhwyswch hyn yn y CDU.* | | | | |
| **2C.2) DDY i gael ei darparu:** | **2C.3) A ddylai'r DDY fod yn y Gymraeg?** | **2C.4) Mudiad / gwasanaeth i ddarparu'r DDY, a manylion cyswllt (lle bo'n briodol):** | **2C.5) Dyddiad cychwyn** | **2B.6) Dyddiad terfyn neu adolygu** |
| *Mae'n rhaid i'r ysgol, coleg neu awdurdod lleol sy'n cynnal y DDY sicrhau bod y corff GIG yn fodlon gyda'r disgrifiad o'r DDY y maen nhw'n ei darparu.* | | | | |
| **2C.7) Sail resymegol dros DDY a rhestrir uchod** | | | | |

## Adran 2D: Lleoedd mewn sefydliad / ysgol benodol neu fwyd / llety

**2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau lle yn yr ysgol i'r plentyn**

*Mae'r adran hon yn cael ei defnyddio dan amgylchiadau penodol yn unig. Os yw awdurdod lleol yn credu ei bod hi er budd y plentyn neu berson ifanc i fynychu ysgol benodol er mwyn gallu cael mynediad at gymorth arbenigol, dylid cael ei henwi yma. Os yw ysgol neu goleg yn cael eu henwi, mae'n rhaid bod lle wedi cael ei ddarparu.*

*Mae awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i ystyried ysgolion a cholegau prif ffrwd yn gyntaf. Ond, mae'r Cod*[3] *yn cydnabod efallai bydd angen ysgol arbenigol ar rai plant a phobl ifanc byddar ac yn cyfeirio at rai dysgwyr byddar yn mynychu ysgol benodol fel enghraifft.*

*Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried dymuniadau'r plentyn, person ifanc neu riant wrth wneud y penderfyniad, felly os ydych chi'n credu bydd eich plentyn yn elwa o fynychu ysgol benodol dylech chi amlygu hyn. Os oes yna wahaniaeth o ran barn, dylid ei nodi yma.*

**2D.2) Enw unrhyw ysgol neu sefydliad arall penodol y mae'n rhaid ei sicrhau**

*Fel uchod, ond am leoliadau eraill fel coleg. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol neu goleg am ddarparu DDY i'r plentyn neu berson ifanc cyn ei enwi yma.*

**2D.3) Darpariaeth bwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau**

*Os ydy'ch plentyn am fynychu ysgol neu goleg yn bell o gartref er mwyn cael cymorth arbenigol, efallai cewch chi drafodaethau gyda'r awdurdod lleol ynghylch darparu llety yn yr ysgol/coleg.*

[3] *Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yw canllaw Llywodraeth Cymru ar sut dylai system y Cynllun Datblygu Unigol weithredu. Mae ar gael yn*

***https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf***

# *Adran 3*

## Adran 3A: Cofnod o wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU

*Os yw'r wybodaeth wedi'i chynnwys fel atodiad i'r CDU, dylid ei rhestri yma.*

*Mae'n rhaid i'r adran hon gynnwys crynodeb o'r trafodaethau am baratoi neu adolygu'r CDU ac unrhyw dystiolaeth a ddarperir, gan gynnwys gan y plentyn, person ifanc neu riant ac unigolion allanol.*

*Gall y dystiolaeth hon gynnwys adroddiadau iechyd, adroddiadau cyrhaeddiad ac asesiadau ysgol.*

*Dros y blynyddoedd bydd yr adran hon yn cynnwys data sy'n olrhain datblygiad y plentyn neu berson ifanc.*

## Adran 3B: Amserlen digwyddiadau allweddol

**3B.1) Digwyddiadau sylweddol neu wybodaeth sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu berson ifanc a chynllunio'r DDY angenrheidiol:**

*Dylai'r adran hon gynnwys digwyddiadau allweddol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu berson ifanc.*
*Mae'r Cod yn amlinellau rhai enghreifftiau:*

- *penderfyniadau sylweddol wedi'u gwneud yn flaenorol mewn perthynas â CDU y plentyn neu berson ifanc, gan gynnwys achosion lle mae adolygiad wedi cael ei gynnal yn dilyn cais gan blentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc, neu lle mae awdurdod lleol wedi ailystyried CDU sydd wedi'i gynnal gan ysgol, ac mae penderfyniad wedi cael ei wneud i beidio ag adolygu'r CDU;*
- *atgyfeiriad am asesiad/archwiliad gan weithiwr proffesiynol;*
- *unrhyw asesiad gyda chanlyniadau a/neu gyngor;*
- *prawf neu arsylwad gan weithiwr proffesiynol a/neu asiantaeth allanol neu gynghorwr;*
- *diagnosis o gyflwr;*
- *salwch;*
- *dyfeisiau clyw a thechnoleg clyw a phan gawson nhw eu cyflwyno yn gyntaf;*
- *digwyddiad sydd wedi cael effaith emosiynol, ymddygiadol neu o ran cyrhaeddiad.*

*Dylai'r adran hon hefyd gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd cyn i'r CDU cyntaf cael ei baratoi a hefyd unrhyw ddigwyddiadau y disgwylir iddyn nhw ddigwydd yn ddiweddarach fel y gall hyn lywio'r adolygiad nesaf.*

**3B.2) Lleoliadau addysg a fynychwyd yn flaenorol (a dyddiadau):**

*Dylai pob lleoliad meithrin, gofal plant ac addysg a fynychwyd ers adnabod y ADY yn gyntaf cael ei gynnwys yma.*

## Adran 3C: Pontio

*Mae'r adran hon yn bwysig iawn ar gyfer cynllunio ymlaen llaw am yr amser pan mae'r plentyn neu berson ifanc yn symud o un ysgol i un arall, er enghraifft o ysgol gynradd i uwchradd, neu uwchradd i goleg Addysg Bellach.*

*Gall y manlynion rydych chi'n eu nodi yma helpu'r lleoliad addysg newydd neu athrawon newydd baratoi a chynllunio ymlaen llaw i ddarparu'r gefnogaeth orau i'r plentyn neu berson ifanc. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, unrhyw gyfarpar arbennig a fyddai'n ofynnol i helpu'r plentyn neu berson ifanc.*

*Mae'n dda i feddwl am bob math o newidiadau o symud ymlaen i ddosbarth neu grŵp blwyddyn newydd i ystyried opsiynau gyrfa. Meddyliwch am unrhyw gefnogaeth efallai y bydd angen ar eich plentyn gyda hyn. Dylid nodi manylion am gymorth penodol y mae angen ei ddarparu (DDY) yn Adran 2.*

## Adran 3D: Trefniadau teithio

*Nid yw'r adran hon yn berthnasol bob tro, ond os bydd rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau teithio i'r plentyn neu berson ifanc i fynd i'r ysgol neu goleg, dylid eu cynnwys yma.*